OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1048 (Cy.110)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Mai 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Mai 2013* |
| *Yn dod i rym* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013, ac mae'n dod i rym ar 24 Mai 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992

**2.** Mae paragraff (2) o erthygl 3 o Orchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (m)(**4**) yn lle "." rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (m) mewnosoder—

"(n) armed forces independence payment under the Armed Forces and Reserve Forces (Compensation Scheme) Order 2011(**5**)."

---

(**1**) 1992 p. 14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c. 32).

(**3**) O.S. 1992/548. Diwygiwyd paragraff (2) gan O.S. 1994/543; O.S. 1995/619; O.S. 1996/636; O.S. 1997/656; O.S. 2013/388; O.S. 2013/591; O.S. 2013/630 ac O.S. 2013/638 (W.71) (Cy.71).

(**4**) Mewnosodwyd is-baragraffau (l) ac (m) gan O.S. 2013/638 (Cy.71)..

(**5**) O.S. 2011/517.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

1 Mai 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Gorchymyn 1992") yn rhagnodi amodau y mae'n rhaid i bersonau sydd â nam meddyliol difrifol a gwahanol bersonau o ddisgrifiadau eraill eu cyflawni er mwyn cael eu diystyried at ddibenion disgowntiau'r dreth gyngor y mae adran 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhagnodi ar eu cyfer.

Mae Gorchymyn 1992 yn rhagnodi bod yn rhaid i berson sydd â nam meddyliol difrifol fod yn derbyn budd-dal cymwys er mwyn cael ei ddiystyried at ddibenion disgowntiau'r dreth gyngor. Mae erthygl 2 yn diwygio amodau Gorchymyn 1992 i gynnwys taliad annibyniaeth y lluoedd arfog o fewn y diffiniad o fudd-dal cymwys.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.